**Pwyllgor Rhanbarth y De Orllewin SWWR-02-02(p.5)**

**Dyddiad** **15 Mawrth 2002, 10.00 - 13.00pm**
**Lleoliad** **Neuadd y Glowyr, Rhydaman**
**Teitl** **Amlinell o gyflwyniad Mererid Hopwood ar ran RhAG Caerfyrddin**

Bydd y cyflwyniad yn cael ei roi o safbwynt rhiant a dyma fydd ei brif bwyntiau:

- canolbwyntio ar bolisi arfaethedig Cyngor Sir Caerfyrddin i ddysgu mwy o elfenau o'r cwricwlwm mathemateg a gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgolion y Strade, Maes yr Yrfa a Bro Myrddin
- ystyried rôl iaith fel *cyfrwng* yn hytrach na *phwnc* a'r dulliau mwyaf effeithiol o greu siaradwyr dwyieithog
- nodi'r cyswllt rhwng defnyddio'r Gymraeg ym mhob maes o fywyd gyda statws yr iaith a meddylfryd ei siaradwyr
- cynnig sylwadau ar yr angen i sicrhau bod y Gymraeg yn gyfrwng o'r ysgol feithrin i'r brifysgol – h.y. yr angen i greu contiwwm ieithyddol yn y sector addysg
- edrych ar anghenion hyfforddi disgyblion, myfyrwyr ac athrawon – gan gynnwys darparu adnoddau yn ogystal â chodi hyder
- cyfle cyfartal – fe fydd y cyflwyniad yn tanlinellu pwysigrwydd cynnig yr un cyfleoedd i bob disgybl a phob rhiant trwy Gymru gyfan.